Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Amcangyfrif 2026-2027

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn unol â pharagraff 9(2) Atodlen 1 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf) mae'n ofynnol i mi gyflwyno cyllideb refeniw flynyddol i Lywodraeth Cymru (yr Amcangyfrif).

1.2 Yn y ddogfen hon, rwyf wedi dangos y pwysau cyllidebol parhaus y mae fy sefydliad yn ei wynebu, ac rwyf yn gofyn i gyfanswm cyllideb adnoddau 2026-27 gynyddu 3.0%, neu £52,000 i £1,800,000 o gyllideb 2025-26, sef £1,748,000 (£1,730,000 yn wreiddiol ac incwm ychwanegol o £18,000 ar gyfer y cynnydd o 86% mewn Yswiriant Gwladol).

## 2. Y sefyllfa ariannol bresennol a thystiolaeth o arbed costau

2.1 Dros nifer o flynyddoedd, mae'r sefydliad wedi delio â chostau cynyddol drwy benderfyniadau a rheolaeth ariannol ddarbodus, sy'n cynnwys toriad o 5% yn y gyllideb yn 2024-25. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ariannol sylweddol ac mae wedi cael effaith andwyol ar allu gweithredol y sefydliad, nad yw'n gynaliadwy.

2.2 Mae'r holl fesurau arbed costau wedi cael eu gweithredu ac maent wedi'u gwreiddio'n gadarn yn arferion ariannol a phrosesau gweithredol y sefydliad.

2.3 Mae strwythur gweithlu'r sefydliad yn cael ei adolygu'n barhaus, ac ar hyn o bryd rwy'n cyflogi tîm o ddim ond 17.0 cyfwerth ag amser llawn, o lefel o 18.5 cyfwerth ag amser llawn yn 2023-24, sy'n ostyngiad o 8% yn y ddwy flynedd diwethaf.

2.4 Cyflawnir gwerth am arian drwy gaffael effeithiol, sy'n lleihau costau cyflogaeth drwy roi gwasanaethau allanol, fel rheoli rhwydweithiau a seilwaith T.G, ar gontractau allanol.

2.5 Bydd effaith gronnol y pwysau unigol ar gyllideb 2026-27 yn effeithio ar y sefydliad. Mae peidio â chael cyllid ychwanegol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn bygwth lleihau effeithiolrwydd gweithredol y sefydliad, cynyddu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chydymffurfedd statudol a chyfreithiol, ac yn bygwth fy ngallu i gyflawni fy swyddogaethau statudol fel Comisiynydd.

## 3. Cais am gyllideb ar gyfer 2026/27

3.1 Mae'r cais hwn am gyllid yn dangos nad yw'n gynaliadwy mwyach i'm cyllideb adnoddau aros ar ei lefel bresennol o £1,748,000. Rwyf yn rhagweld diffyg o £52,000 ar gyfer 2026-27 os bydd y gyllideb yn aros ar lefel 2025-26.

3.2 Mae'r tabl isod yn dangos bod y twf hwn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan gostau cyflogaeth. Mae hyn oherwydd y dyfarniadau costau byw a ragwelir yn y dyfodol, 0.75% ychwanegol o'r lefel o 3% a gyllidebwyd ar gyfer 2025-26, a chynyddrannau mewn contractau, yn hytrach na chynnydd yn nifer y gweithwyr neu gynnydd yng nghostau cyflog canolrifol y sefydliad. Mae'r adroddiadau blynyddol archwiliedig yn dangos bod y cyflog canolrifol wedi cynyddu oherwydd y dyfarniadau costau byw a gostyngiad yn nifer y gweithwyr, yn hytrach na newid yn strwythur y sefydliad dros y tair blynedd diwethaf.

3.3 Rydw i'n credu mai un o rannau mwyaf heriol y rôl fydd cyrraedd pobl hŷn sydd â'r angen mwyaf am gymorth. Fel Comisiynydd, fy rôl i yw sicrhau bod y lleisiau hyn yn cael eu clywed, sydd hefyd yn un o swyddogaethau statudol y rôl.

3.4 Bydd y cynnydd yng nghyllideb y rhaglen waith yn sicrhau bod fy nhîm a minnau'n gallu cyrraedd mwy o bobl hŷn ledled Cymru, yn y cymunedau maent yn byw, gan ymgysylltu'n uniongyrchol wyneb-yn-wyneb i glywed a deall y ffactorau sy'n cyfrannu at eu llesiant a'r pryderon sydd ganddynt. Bydd y gyllideb hon yn cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau fy rhaglen waith, sy'n darparu fframwaith i lywio'r camau gweithredu a'r penderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus a gwasanaethau ledled Cymru.

CYFRINACHOL

**Cais am gyllideb ar gyfer 2026/27**

| *Cais am gyllideb adnoddau* | *2026-27* | *Amrywiant o gyllideb ddiweddaraf 2025-26* | *Nodyn* |
|---|---|---|---|
| Costau cyflogaeth (3.75% costau byw yn 2025-26, 2.2% yn 2026-27) | 1,375,000 | 37,000 | Pwynt 4.1 |
| Costau cyflogaeth eraill | 35,000 | - | |
| Costau llety | 48,000 | - | |
| Costau TG | 81,000 | - | |
| Ffioedd proffesiynol | 53,000 | - | |
| Gorbenion | 71,000 | - | |
| Rhaglen Waith | 105,000 | 15,000 | Pwynt 3.4 a 4.12-4.16 |
| **Refeniw** | **1,768,000** | **52,000** | |
| Dibrisiant | 32,000 | **-** | |
| **Cyfanswm y cais am gyllideb adnoddau** | **1,800,000** | **52,000** | |
| **Grant Arian – cais am gymorth** | | | |
| Cyfanswm y gyllideb adnoddau | 1,800,000 | 52,000 | |
| Tynnu - nad yw'n arian parod (dibrisiant heb gynnwys IFRS16) | (16,000) | - | |
| Tynnu - Arian parod wrth gefn sy'n fwy na 5% y cytunwyd arno | - | 9,000 | |
| Ychwanegu - Arian sydd ei angen ar gyfer taliadau rhent (gan gynnwys TAW) | 23,000 | - | |
| Tynnu - addasiadau cyfrifyddu IFRS16 (llog a dibrisiant) | (18,000) | - | |
| **Cyfanswm y ceisiadau am gymorth grant arian parod** | **1,789,000** | **61,000** | |

## 4. Effaith tymor hir ar y gyllideb

**Costau staff**

4.1 Ym mis Ebrill 2025, cynyddodd cyfradd Yswiriant Gwladol y cyflogwr o 13.8% i 15%. Hyd yma, mae 86% o'r cynnydd hwn wedi cael ei ddyrannu fel cyllid adnoddau ychwanegol ar gyfer 2025-26, ond nid oes cyllideb ychwanegol wedi cael ei darparu ar gyfer y balans o 14%. Yn ystod 2025-26, cadarnhawyd y byddai'r cynnydd mewn costau byw yn 3.75%, ond mae'r gyllideb adnoddau wreiddiol a diwygiedig a ddyrannwyd wedi aros yn 3%. Er bod cais wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru am £10,025 arall ar gyfer y 0.75% ychwanegol, nid yw hyn wedi'i gadarnhau hyd yma. Mae'r cynnydd yng nghostau staff 2026-27 yn tybio mai'r llinell sylfaen ar gyfer 2025-26 yw cynnydd o 3.75% mewn costau staff.

4.2 Rwy'n adolygu nifer y staff a'r dyraniad adnoddau yn gyson pan fydd cyfleoedd yn codi, ac mae hyn wedi amlygu gostyngiad yn y blynyddoedd diwethaf yn nifer y staff cyfwerth ag amser cyflawn o 18.5 yn 2023-24 i 17.0 yn 2026-27.

4.3 Ar gyfer 2026-27, mae cynnydd o 2.2% mewn costau byw wedi cael ei gyllidebu. Os na ddarperir cyllid digonol gan Lywodraeth Cymru, byddai angen adolygu strwythur fy sefydliad i wneud arbedion cost. Fodd bynnag, gyda'r gostyngiad yn nifer y staff eisoes wedi'i adolygu i'r lefel isaf bosibl, bydd cefnogi'r gwaith o gyflawni fy rhaglen waith yn cael ei effeithio os bydd angen ailstrwythuro'r sefydliad ymhellach, bydd hefyd yn tarfu ar y gallu i gyflawni gwaith effeithiol i bobl hŷn wrth i'r broses hon gael ei chwblhau.

4.4 Byddai'r gostyngiad pellach yn nifer y staff a gyflogir hefyd yn cael effaith sylweddol ar fy ngallu i gyflawni fy nyletswyddau statudol.

**Rhaglen waith**

4.12 Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd, gwnes i deithio ar hyd a lled Cymru i gwrdd â channoedd o bobl hŷn er mwyn cael clywed o lygad y ffynnon am y materion a'r heriau sy'n effeithio ar eu bywydau, a'r newidiadau a'r gwelliannau yr hoffent eu gweld.

4.13 Lleisiau pobl hŷn sydd wedi llunio fy Nghynllun Strategol ar gyfer 2025-28, sy'n nodi fy amcanion strategol dros y tair blynedd nesaf:

- Sbarduno newid i wneud Cymru yn wlad lle gall pobl fyw a heneiddio'n dda
- Grymuso pobl hŷn
- Newid y naratif am bobl hŷn a heneiddio

4.13 Mae fy rhaglen waith flynyddol yn manylu ar y camau penodol y byddaf yn eu cymryd i gyrraedd pobl hŷn ledled Cymru a chyflawni'r gwelliannau y mae pobl hŷn eisiau eu gweld a'u hangen.

4.14 Mae cyllideb fy rhaglen waith yn sicrhau bod fy nhîm a minnau'n gallu craffu ar ddeddfwriaeth, canllawiau, penderfyniadau a darpariaeth gwasanaethau ar draws meysydd sy'n cynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, trafnidiaeth a gwasanaethau yn y gymuned; cynnal ymchwil ar faterion penodol, archwilio profiadau pobl hŷn; monitro agweddau at bobl hŷn a heneiddio ar draws y drafodaeth a'r ddadl sy'n sail i drafodaethau cyhoeddus; a mesur i ba raddau y mae polisi ac ymarfer ledled Cymru yn adlewyrchu hawliau ac anghenion pobl hŷn.

4.15 Mae clywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn yn y cymunedau maen nhw'n byw ynddynt wrth wraidd fy null o fesur effaith a chanlyniadau, drwy ymgysylltu'n barhaus ledled Cymru mewn digwyddiadau arbennig, grwpiau ffocws, arolygon ac ymgynghoriadau.

4.16 Ni ellir cwblhau hyn heb ddyrannu'r gyllideb angenrheidiol i'r gweithgareddau hyn.

## 5. Casgliad

5.1 Mae'r sefydliad wedi parhau i ddangos i Lywodraeth Cymru bod arbedion cost wedi cael eu nodi a'u bod wedi'u gwreiddio yn arferion gweithredol ac ariannol y sefydliad.

5.2 Mae'r sefydliad hefyd wedi dangos nad yw'n gynaliadwy cael cyllideb wastad o un flwyddyn i'r llall, na thoriad pellach yn y gyllideb.

5.3 Rwy'n derbyn ac yn deall yn llwyr y bydd penderfyniadau cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 yn heriol, ond bydd ceisio cynnydd o 3% o gyllideb 2025-26 yn sicrhau fy mod yn gallu cyflawni fy nyletswyddau statudol a gweithio dros Gymru sy'n arwain y ffordd o ran grymuso pobl hŷn, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a galluogi pawb i fyw ac i heneiddio'n dda.

CYFRINACHOL